Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

# Cylchlythyr | Circular

# Cefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch: canllawiau a dyraniadau 2023/24

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Gorffennaf 2023 | |
| **Cyfeirnod:** | W23/20HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 18 Hydref 2024 | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Savanna Jones |
| | E-bost: | savanna.jones@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau i gefnogi gwrth-hiliaeth, gan gynnwys manylion dyraniad CCAUC o £1m ar gyfer 2023/24 ynghyd â'n disgwyliadau ynghylch cyllid cyfatebol.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg | This document is also available in Welsh

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr yn darparu gwybodaeth am ddyraniadau cyllid 2023/24, disgwyliadau ynghylch cyllid cyfatebol a gofynion monitro i gefnogi cydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch. Roedd ein canllawiau cyntaf yn cyfeirio at 'gydraddoldeb hiliol', ond gan ystyried Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol byddwn yn cyfeirio at y ffrwd gyllido hon fel cyllid gwrth-hiliaeth.

2. Bydd prifysgolion yn cael cyllid mewn un gyfres ym mis Tachwedd 2023, er ein bod yn cadw'r hawl i ddal cyllid yn ôl neu adfachu cyllid lle mae gennym bryderon ynghylch perfformiad, cynnydd anfoddhaol neu'r modd y cyflwynir adroddiadau.

3. Dylid darllen y cylchlythyr hwn ar y cyd ag addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch (W23/06HE).

4. Mae llythyr cylch gwaith CCAUC 2023-2024 (paragraff 8) yn canmol cyfraniad addysg uwch at Gymru wrth-hiliol. Mae'r Gweinidog hefyd yn disgrifio disgwyliadau i'r sector adeiladu ar y gwaith hwn a 'darparu'r llwyfan ar gyfer y newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn i wrth-hiliaeth ymwreiddio'.

5. Mae'r camau gweithredu cyfredol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru wedi'u bwriadu i gael eu cwblhau erbyn mis Medi 2023. Efallai y byddwn yn darparu canllawiau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn 2023/24 pe bai nodau a/neu gamau gweithredu newydd ar gyfer addysg uwch yn cael eu cyhoeddi.

6. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2024. Byddwn yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau yn 2023/24 i ystyried goblygiadau gweithio mewn cyd-destun addysg ôl-16 a rhannu arfer perthnasol, fel y bo'n briodol. Mae CCAUC yn aelod o Grŵp Llywio Cymru Wrth-hiliol Addysg Bellach i helpu i oleuo a chefnogi'r broses bontio hon.

## Diben cyllid gwrth-hiliaeth

7. Diben y cyllid hwn yw atal anghydraddoldeb, mynd i'r afael â hiliaeth a chefnogi prifysgolion a sector gwrth-hiliol, cefnogi newid mewn diwylliant a chyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

8. Er bod y cyllid hwn wedi'i fframio o ran hil, dylai prifysgolion ei ddefnyddio i weithredu ar faterion fel y maent yn croestorri â hil gan gynnwys, ymhlith eraill, aflonyddu ar sail hunaniaeth, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, trais a cham-drin, a hil, crefydd a chred. Mae Universities UK wedi cyhoeddi dau bapur briffio ar grefydd a chred a ddylai oleuo ystyriaethau o ran cydraddoldeb hiliol: Tackling antisemitism: a practical guide for universities (Mehefin 2021) a Tackling Islamophobia and anti-Muslim hatred: practical guidance for universities (Rhagfyr 2021).Mae'r papurau briffio hyn yn rhan o'i gyfres changing the culture ehangach sy'n nodi tystiolaeth ac argymhellion mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, aflonyddu a throsedd casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr a staff prifysgolion.

**Dyraniadau ac amodau'r cyllid yn 2023/24**

9. O ran dyraniadau prifysgolion yn 2023/24:
    i. maent yn amodol ar ymrwymiad gan brifysgolion i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer dyraniadau (fel yn 2022/23 ac ar gyfer 2024/25)
    ii. maent yn defnyddio data myfyrwyr HESA 2021/22 sy'n seiliedig ar boblogaeth gofrestru safonol HESA, wedi'i lleihau i gyfrif pennau, h.y. os oes gan fyfyriwr fwy nag un cofrestriad caiff ei gyfrif unwaith;
    iii. maent yn defnyddio data myfyrwyr sy'n cynnwys y corff myfyrwyr cyfan: pob dull, lefel, gwlad y maent yn hanu ohoni;
    iv. maent yn seiliedig ar ddata HESA wedi'i ddilysu ar gyfer 2021/22 sydd wedi cael ei ddilysu gan y brifysgol;
    v. fel sy'n arferol gennym, mae data myfyrwyr y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama wedi'i gynnwys gyda data a dyraniad Prifysgol De Cymru; a
    vi. bydd yn cael ei wneud fel un taliad ym mis Tachwedd 2023, yn amodol ar gael adroddiadau monitro gwrth-hiliaeth 2022/23;

10. Ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio cyllid cyfatebol yw:
    i. na ddylai'r dyraniad gan CCAUC arwain at unrhyw ostyngiad yn yr adnoddau a ddarperir gan brifysgolion ar gyfer datblygiadau gwrth-hiliaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys eu hymrwymiad i ennill siarter;
    ii. bod prifysgolion yn ymrwymo i neilltuo adnoddau ychwanegol i gefnogi camau gweithredu gwrth-hiliaeth, y tu hwnt i gyfanswm dyraniad CCAUC o £1m;
    iii. lle caiff unrhyw weithgareddau neu wasanaethau gwrth-hiliaeth presennol eu cyllido trwy gynllun ffioedd a mynediad neu ffynonellau eraill, y gall y gweithgareddau a'r gwasanaethau hyn gael eu cynyddu gan CCAUC neu gyllid cyfatebol y brifysgol. Lle digwydd hyn, rhaid i'r brifysgol ei gwneud yn glir yn yr holl adroddiadau a gweithgarwch monitro gwrth-hiliaeth sut ac i ba lefel y mae'r cyllid hwn wedi gwella gweithgareddau a gwasanaethau a gall hynny gael ei archwilio gennym ni;
    iv. bod y cyllid cyfatebol a'r dyraniad gan CCAUC yn arwain at gyflymu'r gwaith i fynd i'r afael â hiliaeth, a mwy o gynnydd gyda'r gwaith hwnnw, i ddod yn brifysgolion gwrth-hiliol, i wella cydraddoldeb hiliol ac i ennill nod siarter;
    v. y gellir defnyddio cyllid cyfatebol neu gyllid CCAUC i dalu costau tanysgrifiadau aelodaeth perthnasol, hyfforddiant a hwylusir yn allanol neu arbenigedd allanol arall.

11. Mae dyraniadau 2023/24 fel a ganlyn:

| Sefydliad | 2023/24 Dyraniad CCAUC (gyda therfyn isaf o £50K) | 2023/24 Cyllid cyfatebol y Sector (dim terfyn isaf) | 2023/24 Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Prifysgol De Cymru | 157,559 | 158,029 | 315,588 |
| Prifysgol Aberystwyth | 50,302 | 50,452 | 100,755 |
| Prifysgol Bangor | 71,623 | 71,836 | 143,459 |
| Prifysgol Caerdydd | 230,696 | 231,384 | 462,080 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 101,853 | 102,157 | 204,010 |
| Prifysgol Abertawe | 151,760 | 152,212 | 303,972 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 85,950 | 86,206 | 172,156 |
| Prifysgol Wrecsam | 50,000 | 47,168 | 97,168 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 100,257 | 100,556 | 200,812 |
| **Cyfanswm** | **1,000,000** | **1,000,000** | **2,000,000** |

**Canlyniadau a monitro ar gyfer 2023/24**

12. Mae ein llythyr cylch gwaith ar gyfer 2023-2024 yn disgwyl i CCAUC “sicrhau cynnydd parhaus o ran cyflawni'r camau gweithredu, yn enwedig bod camau cynnar yn cael eu cymryd i adolygu polisïau, prosesau a gweithdrefnau presennol ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog hiliol, ac wrth wneud hynny wella profiad staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig mewn addysg uwch”. O ystyried y ffocws hwn ar weithredu, mae ein cais am ganlyniadau’n ymwneud â chynllunio ar gyfer gweithredu.

13. Dylai canlyniadau yn 2023/24 adeiladu ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliol 2022/23 a fydd yn cael eu cyflwyno i ni ym mis Hydref 2023. Ar gyfer monitro yn 2023/24, bydd hyn yn cynnwys cyflwyno’r canlynol i’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ym mis Hydref 2024:

    i. Diweddariad ar gynnydd a hwnnw’n cynnwys camau gweithredu a gwblhawyd yn 2023/24 (gall hwn fod yn gynllun gweithredu wedi’i ddiweddaru);
    ii. Gwybodaeth am gamau gweithredu a chanlyniadau yn 2024/25 gan gynnwys, ymhlith eraill, cyflawni’r canlyniadau newydd yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, pan fyddant ar gael, ac ennill siarter cydraddoldeb hiliol erbyn mis Gorffennaf 2025;
    iii. Datganiad cyllid i roi cyfrif am y dyraniad gan CCAUC a chyllid cyfatebol y brifysgol.

14. Rydym yn cydnabod y gall cynllun gweithredu siarter cydraddoldeb hiliol y brifysgol ddarparu cyfrif boddhaol ar gyfer y mwyafrif o’r cyllid hwn a darparu digon

o sicrwydd ar ein cyfer ynghylch strwythurau rheoli a llywodraethu, camau gweithredu, cerrig milltir blynyddol, cyflymder, cynnydd a wnaed ac uchelgais. Lle nad felly y mae hi byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol.

15. Pe bai Llywodraeth Cymru'n pennu disgwyliadau newydd ar gyfer addysg uwch neu'r sector ôl-16 yn ystod cyfnod y cyllid, efallai y byddem yn gofyn am wybodaeth fonitro ychwanegol.

## Dyddiadau a ffurflenni monitro

16. Y dyddiad ar gyfer cyflwyno gwybodaeth fonitro 2023/24 yw **Dydd Gwener, 18 Hydref 2024**.

17. Dywelwch y ffurflen fonitro (**Atodiad A**) wedi'i chwblhau atom ni os gwelwch yn dda. Bydd manylion cyswllt staff y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael eu darparu yn dilyn ei sefydlu ar 1 Ebrill 2024.

## Asesu effaith ein polisïau

18. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym yn disgwyl y bydd effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, crefydd a chred.

19. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

## Rhagor o wybodaeth

20. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Savanna Jones (savanna.jones@hefcw.ac.uk).